# Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ(3)0489(HSS) a gyhoeddwyd gan Gwenda Thomas, y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol, ar 13 Mai 2008

**At Joyce Watson:**

Yn ystod Sesiwn Holi Cwestiynau y Cyfarfod Llawn ar 7 Mai gofynnoch i mi wneud datganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i hyrwyddo buddiannau pobl hŷn yng Nghymru. Wrth ateb, amlinellais ein cyflawniadau dan Gam 1 (2003-2008) ein Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru gan gynnwys penodi Comisiynydd ar gyfer Pobl Hŷn. Diolch yn fawr am eich sylwadau ar benodiad Ruth Marks.

Fel y dywedais, mae Cam 2 ein Strategaeth (2008-13) sef 'Byw'n Hirach, Byw yn Well', a lansiais ar 13 Mawrth, yn canolbwyntio ar bedair thema strategol a thrawsbynciol: Gwerthfawrogi Pobl Hŷn—Cynnal a Meithrin Ymwneud, Newid Cymdeithas—Statws Economaidd Pobl Hŷn, Iechyd, Lles ac Annibyniaeth. Yn gefn i'r rhain mae 24 o faterion sy'n cael blaenoriaeth. Mae'r manylion wedi'u hamlinellu yn yr atodiad.

Buoch yn holi yn benodol sut y cafodd yr £20 miliwn a fuddsoddwyd yn y Strategaeth bwysig hon ei defnyddio. Trefnwyd bod arian penodol gwerth £13 miliwn ar gael yn y cyfnod o fis Ebrill 2003 i fis Mawrth 2008 er mwyn sicrhau bod y Strategaeth yn cael ei gweithredu'n effeithiol. Roedd 80% o'r arian ar gyfer awdurdodau lleol, 10% ar gyfer y Sector Gwirfoddol—a 10% ar gyfer y Cynulliad yn achos prosiectau a reolir yn ganolog, a gwerthuso. Canlyniad hyn oedd bod arian blynyddol gwerth £2.4 miliwn ar gael i awdurdodau lleol gyda £770,000 yn cael ei frigdorri er mwyn ariannu gwaith cydgysylltydd lleol y Strategaeth ar gyfer pob awdurdod yng Nghymru. Mae'r Sector Gwirfoddol wedi cael taliadau gwerth £300,000 y flwyddyn drwy Gynghrair Henoed Cymru i gynnal prosiectau arddangos a fydd yn hyrwyddo nodau'r Strategaeth.

Rydym wedi cwblhau gwerthusiad ac ymgynghoriad annibynnol helaeth am ganlyniadau Cam 1 y Strategaeth a sut y dylai'r profiad hynny lywio'r gwaith cynllunio am y 5 mlynedd nesaf. At ei gilydd dangosodd y gwerthusiad fod Llywodraeth y Cynulliad a'r holl sefydliadau sy'n bartneriaid iddi wedi gwneud cynnydd da. Cymerwyd camau i sicrhau bod sylfeini cadarn ar gyfer datblygu'r Strategaeth yn genedlaethol ac yn lleol a bod trefniadau effeithiol yn eu lle o ran cynllunio. Mae cryn ysgogiad lleol felly o blaid gweithredu'r Strategaeth, ac mae ymwneud pobl hŷn yn y broses yn cael blaenoriaeth.

Bydd tair blynedd nesaf y broses o weithredu Cam 2 y Strategaeth yn cael cymorth £7 miliwn pellach gan Lywodraeth y Cynulliad. Mae £5.1 miliwn o'r arian hwn yn cael ei glustnodi ar gyfer awdurdodau lleol er mwyn iddynt adeiladu ar y strwythurau a'r rhaglenni y maent wedi'u rhoi yn eu lle drwy gydol Cam 1. Mae £1.05 miliwn pellach wedi cael ei ddyrannu i'r sector gwirfoddol er mwyn sefydlu rhwydwaith strategol o sefydliadau gwirfoddol ledled Cymru, gyda gweddill yr arian yn cael ei ddyrannu i brosiectau y mae Llywodraeth y Cynulliad yn eu rheoli'n ganolog.

Oherwydd y tueddiadau demograffig a fydd yn effeithio ar Gymru yn ystod y degawd nesaf, a goblygiadau hyn, yn enwedig lle bo gwasanaethau cyhoeddus dan sylw, rhaid inni barhau i wneud y Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn a'r broses o'i gweithredu yn flaenoriaeth uchel.